# Fformiwlâu Arfaethedig ar gyfer Ariannu Ysgolion Uwchradd

## *Proposed Formulae for Funding Secondary Schools*

5 Rhagfyr 2011 / *5 December 2011*

Agenda

| | |
|---|---|
| 1. Croeso / *Welcome* | Cyng/*Cllr* Ceredig Davies |
| 2. Llinell Amser / *Timeline* | Mr Eifion Evans |
| 3. Egwyddorion / *Principles* | Mr Chris Hywel Macey |
| 4. Trafodaeth / *Discussion* | |

**Cyflwyniad**

1. Mae'r cynigion yn cynnwys ffyrdd amgen o ddyrannu cyfanswm y cyllid sydd ar gael. Nid oes unrhyw gynnig i newid swm y cyllid a ddyrennir i'r sector uwchradd.

2. Caiff elfennau'r fformiwlâu sy'n parhau'r un fath eu dangos mewn llwyd ar y taflenni A3.

3. Y prif feysydd a ystyrir yw'r gymhareb disgybl-athro (y 'PTR'), y cyfandaliad a ddyrennir i bob ysgol, yr amddiffyniad ar gyfer ysgolion bach er mwyn sicrhau y gallant gyflwyno'r cwricwlwm, ac addysg ddwyieithog.

4. Caiff addysg 16+ ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n rhan o'r adolygiad hwn.

5. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dirwyn i ben ar 5 Ionawr, 2012.

**Gwerth Disgyblion yn ôl Oedran (AWPV)**

1. Dyma'r cyllid a ddyrennir i ysgol ar gyfer pob un o'i disgyblion.

2. Mae'r swm ychwanegol a ddyrennir i flwyddyn 11 yn adlewyrchu cost yr arholiadau allanol ychwanegol a safwyd gan y disgyblion hyn.

3. Y brif ran o'r gwerth (£1,697) yw'r PTR sef 30:1 ar draws yr holl flynyddoedd.

4. Yng nghyfnod allweddol 4, y PTR cyfredol yw 20:1 er mwyn adlewyrchu'r meintiau dosbarth llai sydd eu hangen yn sgil cyflwyno pynciau opsiynol. Mae'r cynigion yn delio â hyn drwy ffactor annibynnol newydd a gyflwynwyd ar gyfer opsiynau.

5. Cydnabyddir Hafan ac Encil yn y fformiwlâu arfaethedig gyda gwerth o £34 wedi'i gynnwys yn yr AWPV.

6. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â gofyniad statudol yr Awdurdod i ddirprwyo o leiaf 70% o gyfanswm y gyllideb ddirprwyedig ar sail disgyblion, mae'n ddymunol cynyddu cyfran o'r cyfanswm a ddyrennir drwy'r AWPV. Wedi ystyried ffactorau eraill, caiff unrhyw gyllid sydd ar ôl ei ddyrannu gyda gwerth o £545 y disgybl.

7. Mae'r £318 ar gyfer elfennau cyfredol eraill sydd ddim yn wynebu newidiadau.

**Prydau Ysgol am Ddim (PYDd)**

1. Mae'n ofyniad statudol i'r Awdurdod gynnwys ffactor ar sail cyni cymdeithasol o fewn ei gynllun ariannu yn ôl fformiwla. Mae'r fformiwlâu presennol yn cynnwys £447 ar gyfer AAA (wedi'i ddangos fel llinell ar wahân gyda'r adran AAA), £357 ar gyfer bwyd a £53 ar gyfer cyllid cyffredinol i bob disgybl sy'n teilyngu PYDd.

2. Mae yna elfen Hafan ac Encil newydd sy'n werth £509.

3. At hynny, mae'r cynigion yn cynyddu'r gwerth ariannu cyffredinol o £53 i £647.

**Cyfandaliad**

1. Cynigir bod gwerth y fformiwlâu addysgu cyfredol yn cael eu dileu.

2. Byddir yn cadw gwerth y fformiwlâu cyfredol ar gyfer ffactorau eraill sef £20,762.

3. Cyflwynir £25,460 ar gyfer Hafan ac Encil.

**Trothwy Dosbarth 30**

1. Cydnabyddir y costau ychwanegol a ddaw i ran yr ysgolion hynny sy'n meddu'n gyson ar grwpiau blwyddyn â nifer disgyblion sy'n fymryn uwch na'r pwynt lle gofynnir am grŵp addysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae hynny'n costio oddeutu £50,000 ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

2. Mae'r ffactor hwn yn tybio maint dosbarth mwyaf o 30, gyda'r disgybl nesaf yn denu cyllid addysgu sy'n gyfwerth â 0.20 llawn amser. Mae'r AWPV ond yn rhoi cyfartaledd llawn amser o 0.033 y disgybl. Felly, mae'r ffactor hwn yn llenwi'r bwlch.

3. Erbyn y 36ed disgybl, mae'r AWPV yn rhoi digon o gyllid i sicrhau cyfartaledd llawn amser o 0.20 ac felly, ar y pwynt hwn, nid yw'r ffactor trothwy bellach yn effeithiol.

4. Mae'r un egwyddor yn gymwys ar gyfer pob lluosrif o 30 disgybl o fewn grŵp blwyddyn, ac eithrio pan fo ffactorau diogelu yn sicrhau lleiafswm ar gyfer carfan addysgu.

**Diogelu Grŵp Blwyddyn**

1. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ffactor yn sicrhau o leiaf 2.00 athro cyfwerth â llawn amser i bob grŵp blwyddyn.

2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ffactor yn sicrhau o leiaf 2.00 athro cyfwerth â llawn amser i bob grŵp blwyddyn ar gyfer y 60% o'r amserlen a neilltuwyd i bynciau craidd a gwersi gorfodol eraill.

3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ffactor yn sicrhau o leiaf 6.00 athro cyfwerth â llawn amser i bob grŵp blwyddyn ar gyfer y 40% o'r amserlen a neilltuwyd i bynciau opsiynol.

4. Mae 6 phwnc ar gael ymhob un o'r 4 slot opsiynau ynghyd â'r pynciau craidd a'r dybiaeth fod 2 gwrs yn cael eu cynnig ond nid eu gweithredu (e.e. oblegid nifer disgyblion annigonol) yn caniatáu i ysgolion gynnig y 30 pwnc sy'n ofynnol gan y Mesur.

**Addysg Ddwyieithog**

1. Mae'r cyllid ar gyfer ysgolion dwyieithog penodedig gyda 1.2 athro cyfwerth â llawn amser yr un, yn parhau'r un fath i raddau helaeth. Nid yw'r ysgolion hyn yn teilyngu cyllid drwy'r ddau ffactor dwyieithog arall.

2. Caiff y cyfandaliad ar gyfer ysgolion dwyieithog traddodiadol yn y fformiwlâu cyfredol eu dileu. Mae'r amrywiad yn y math o gwricwlwm o ran iaith y cyflwyniad yn gwahaniaethu mor fawr rhwng ysgolion fel na ellir parhau i gynnal ffigur unigol cyffredin.

3. Caiff £500 ei ddyrannu ar gyfer pob canran o ddisgyblion TGAU sy'n sefyll Cymraeg iaith gyntaf. Yn y tabl, mae'r canrannau'n cyfeirio at y rhai a safodd eu harholiadau yn haf 2010.

4. Lle cynigir ac addysgir pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, dyrennir cyllid ar raddfa sy'n gyfwerth â 0.5 llawn amser ar gyfer cyfran yr amserlen a lenwir gan y pwnc hwnnw. Y rhesymeg ar gyfer defnyddio 50% yw bod y fath ddarpariaeth ambell waith, ond nid bob tro, yn gofyn am grŵp ychwanegol, gan ddibynnu ar niferoedd y grŵp blwyddyn a'r rhaniad ieithyddol.

5. Bydd Ysgol Penglais yn teilyngu cyllid trwy'r ddau ffactor hyn yn yr un ffordd â'r pedair ysgol ddwyieithog draddodiadol.

**Dogfennaeth**

1. Mae'r holl ddogfennaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=12401

**Introduction**

1. The proposals involve an alternative means of allocating the total funding available. There is no proposal to change the amount of funding allocated to the secondary sector.

2. Elements of the formulae which remain unchanged are shown in grey on the A3 sheets.

3. The main areas considered are the pupil-teacher ratio (PTR), the lump sum allocation to each school, protection for small schools to ensure that they can deliver the curriculum, and bilingual education.

4. Post 16 education is funded directly by the Welsh Government and is not part of this review.

5. The consultation period ends on 5 January 2012.

**Age Weighted Pupil Value (AWPV)**

1. This is the amount of funding allocated to a school for each of its pupils.

2. The additional amount allocated for year 11 reflects the cost of additional external examinations sat by these pupils.

3. The main constituent (£1,697) of the value is the PTR of 30:1 across all years.

4. In key stage 4, the PTR is currently 20:1 to reflect the smaller class sizes necessitated by the introduction of subject options. These proposals deal with this through a new stand alone options factor.

5. Hafan ac Encil are recognised in the proposed formulae, with a value of £34 included in the AWPV.

6. In order to ensure continued compliance with the statutory requirement for the authority to delegate at least 70% of the total delegated budget on a pupil-led basis, it is desirable to increase the proportion of the total funding allocated through the AWPV. Funding remaining after considering other factors is allocated as a value of £545 per pupil.

7. £318 is for other existing constituents for which no changes are proposed.

**Free School Meals (FSM)**

1. The inclusion of a factor based on social deprivation within the authority's formula funding scheme is a statutory requirement. The current formulae include amounts of £447 for SEN (shown as a separate line with the SEN section), £357 for food and £53 general funding per pupil entitled to FSM.

2. A new Hafan ac Encil element carries a value of £509.

3. The proposals also increase the general funding value from £53 to £647.

**Lump Sum**

1. The value in the current formulae in relation to teaching is proposed to be eliminated.

2. The value in the current formulae for other factors is retained at £20,762.

3. A value of £25,460 is introduced in respect of Hafan ac Encil.

**Class Threshold 30**

1. Recognition is made of the additional costs incurred by schools whose year groups are consistently just above the number of pupils at which it is necessary to introduce an additional teaching group and the cost which that entails – currently around £50,000 per year group.

2. This factor assumes a maximum class size of 30, with the next pupil attracting teaching funding equivalent to 0.20 FTE. The AWPV only gives 0.033 FTE per pupil. This factor therefore makes up the difference.

3. By the 36th pupil, the AWPV gives sufficient funding to ensure 0.20 FTE and so at this point the threshold factor ceases to be effective.

4. The same principle is applied at each multiple of 30 pupils in a year group, except when the protection factors ensure a minimum teaching cohort anyway.

**Year Group Protection**

1. In key stage 3, the factor ensures at least 2.00 FTE teachers per year group.

2. In key stage 4, the factor ensures at least 2.00 FTE teachers per year group for the 60% of the timetable dedicated to core subjects and other compulsory lessons.

3. In key stage 4, the factor ensures at least 6.00 FTE teachers per year group for the 40% of the timetable dedicated to option subjects.

4. 6 subjects available in each of 4 option slots together with the core subjects and an assumption that 2 courses are offered but not run (e.g. because of insufficient pupil numbers) allows schools to offer the 30 subjects required by the Measure.

**Bilingual Education**

1. The funding for designated bilingual schools at the equivalent of 1.2 FTE each remains largely unchanged. These schools are not entitled to funding via the other two bilingual factors.

2. The lump sum for traditional bilingual schools in the current formulae is deleted. The variation in the type of curriculum vis-à-vis language of delivery varies so much between schools that the continued use of a single common figure is unsustainable.

3. An amount of £500 is allocated per percentage of GCSE pupils sitting first language Welsh. In the table, the percentages are those appertaining to the summer 2010 sitting.

4. Where a subject is offered and taught through the medium of Welsh, funding is allocated at a rate equivalent to 0.5 FTE for the proportion of the timetable occupied by that subject. The rationale for using 50% is that sometimes, but not always, such provision of requires an additional group, depending on the numbers in the year group and how they split vis-à-vis language.

5. Penglais School will be entitled to funding by means of these two factors in the same way as the four traditional bilingual schools.

**Documentation**

1. All documentation is available on the Ceredigion County Council website: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=12401